# Cenn@d

20 Mai 2026

**Rhifyn 273**

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

UBC BUW

## Croeso mawr ym Môn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd

Mae Eisteddfod yr Urdd yn ymestyn i fod yn ŵyl saith diwrnod eleni, a hynny am y tro cyntaf erioed. Cynhelir yr ŵyl ar Gae Sioe Môn, ger Gwalchmai, o ddydd Sadwrn, 23 Mai, tan ddydd Gwener, 29 Mai.

O ganlyniad i'r diwrnod ychwanegol, bydd newid i drefn cystadlaethau'r wythnos, gan ddechrau gyda'r cystadlaethau ar gyfer pobl ifanc, a diweddu'r wythnos gyda'r plant ifanc. Cynhelir gŵyl Triban dros y penwythnos cyntaf, gyda rhaglen lawn o fandiau yn cymryd rhan.




## Croeso'r eglwysi a'r ysgolion Sul

Yn ôl yr arfer, bydd gan Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul bresenoldeb ar y maes. Os byddwch yn dod i'r Eisteddfod, cofiwch alw i mewn i'n gweld. Bydd yna groeso yn eich disgwyl, gyda digonedd o weithgareddau ar gyfer pob oed. Bydd cynrychiolwyr o ysgolion Sul ac eglwysi Môn ar y stondin, yn barod i rannu eu fferins a'u *freebies* i bawb fydd yn galw heibio. Byddwn yno o 9 tan 6 bob dydd dros gyfnod o saith diwrnod. Croeso cynnes i bawb alw heibio.

# Ffilm Gristnogol o Gymru yn ennill gwobr yng Ngŵyl Ffilmiau Gristnogol yn Florida

Bydd ffilm animeiddiedig ddwyieithog am ddau o seintiau mwyaf adnabyddus Cymru yn cael ei dangos am y tro cyntaf yn Gymraeg yn ystod Oedfa'r Urdd, gwasanaeth Sul Eisteddfod yr Urdd, ar 24 Mai 2026 ar Faes Sioe Môn.

Enillodd *Stori Cybi a Seiriol* wobrau am y Ffilm Addysgol Orau a'r Ffilm Animeiddiedig Orau yng Ngŵyl Ffilm Gristnogol 2026 sydd wedi'i lleoli yn Florida.

Mae'r ffilm yn dilyn hanes Seintiau Cybi a Seiriol, dau ffigwr o'r chweched ganrif y bu eu ffydd a'u cyfeillgarwch yn helpu i lunio bywyd Cristnogol yng Nghymru. Mae'n olrhain taith Cybi o Jerwsalem i Ynys Môn a thaith Seiriol drwy Gymru, gyda'r ddau sant yn cyfarfod wrth Ffynnon Clorach yng nghanol Ynys Môn.

Mae'r ffilm yn defnyddio animeiddio ac awyrluniau i ddod â straeon y seintiau'n fyw ar draws ffynhonnau sanctaidd, mynachlogydd a thirwedd arfordirol. Cafodd ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cafodd Stori Cybi a Seiriol ei chynhyrchu a'i chydysgrifennu gan Nia Elain Roberts, Swyddog Addysg Ysgolion Esgobaeth Bangor, a Hywel Griffiths, a fu hefyd yn gyfrifol yr animeiddio. Nia sy'n darparu'r naratif, gyda'r Parchedig Ganon Emlyn Williams yn rhoi llais i Gybi.




Bydd y dangosiad yn rhan o Oedfa'r Urdd, sy'n canolbwyntio ar thema pererindod. Bydd Erin Pererin, canllaw pererindod ffuglennol i blant a grëwyd gan Nia ac a chwaraeir gan aelod o gôr Ysgol Sul Môn, yn cyflwyno'r oedfa. Bydd perfformiadau gan Gôr Ieuenctid Môn a chôr Ysgol Sul Môn hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Y ffilm yw'r adnodd diweddaraf ar wefan https://pererinysgolion.cymru/, gwefan a ddatblygwyd gan Esgobaeth Bangor sy'n darparu adnoddau addas

**Diolch i Siân ac Owain Edwards**
**Tudalen 3**

**Ar ras i'r India: Huw a Nan Powell-Davies**
**Tudalen 5**

**Arddangosfa Dagrau Aur ar daith**
**Tudalen 8**

yn ôl oedran ar bererindod Gristnogol, seintiau a mannau sanctaidd i gefnogi'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE).

## Erin Pererin

Mae Erin Pererin yn ymddangos ar draws y wefan, gan arwain plant drwy'r adnoddau a'u cyflwyno i'r syniad o bererindod a threftadaeth Gristnogol Cymru. Mae'r prosiect yn rhan o waith ehangach yr Esgobaeth i annog ymgysylltiad â phererindod a mannau sanctaidd, ar adeg pan fo diddordeb mewn pererindod wedi cynyddu yn dilyn cyfres *Pilgrimage* y BBC.



Erin Pererin




Dywedodd Nia ei bod eisiau i blant ddeall yr hanes y tu ôl i'r eglwysi yn eu cymunedau eu hunain: "Mae eglwysi yn ganolfannau pwysig i'r ffydd Gristnogol, ond maen nhw hefyd yn ein dysgu am ein treftadaeth. Roedd seintiau Cymreig fel Cybi a Seiriol yn gweld mai adeiladu cymunedau, cryfhau ffydd, a helpu eraill oedd y ffordd ymlaen."

Wrth sôn yn benodol am hanes Cybi, dywedodd, "Ar ôl marwolaeth ei dad, gwrthododd Cybi y cyfle i ddod yn frenin Cernyw a dewis yn hytrach ddilyn bywyd o ffydd. Mae ei hanes yn dangos bod ei gred yn Nuw yn bwysicach iddo na grym, ac mae hynny'n parhau'n neges ysbrydoledig heddiw."

Yr haf hwn bydd Llwybr Cybi a Seiriol yn cael ei lansio, sef llwybr pererindod newydd ar Ynys Môn sy'n dilyn ôl traed y ddau sant drwy eglwysi, ffynhonnau sanctaidd a thirweddau arfordirol yr ynys.

Gall ysgolion ymweld â PererinYsgolion.cymru i gael adnoddau sy'n cefnogi'r cwricwlwm CGaM.



**Bydd Oedfa'r Urdd yn cael ei chynnal yn y Pafiliwn Gwyrdd ar faes y Brifwyl ddydd Sul am 9.15 y bore.**

## YSBRYD Y PENTECOST

Mewn llawenydd a moliant dathlwn dy ddyfodiad di,
Ysbryd Sanctaidd Duw, Ysbryd grym a goleuni,
Ysbryd gras a bywyd.
Tyrd fel gwynt nerthol i'n hadnewyddu;
tyrd fel tân nefol i'n puro; tyrd fel anadl Duw i'n bywhau;
tyrd fel colomen a rhoi i ni dangnefedd.
Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni a dod d'oleuni nefol.
Rhown ddiolch a mawl i ti, O Dduw,
am yr amrywiol ffyrdd yr wyt yn datguddio dy hun
ac yn gweithredu yn dy fyd ac yn dy Eglwys.
Yn arbennig, diolchwn am dy ymwneud â ni
trwy dy Ysbryd Glân: am ei rym yn y greadigaeth,
yn dwyn trefn o anhrefn a goleuni o dywyllwch,
ac am ei egni creadigol yn ein bywyd ni.
Diolchwn am iddo ysbrydoli'r proffwydi i lefaru dy Air
ac arwain dy bobl i ddeall dy ewyllys.
Diolchwn am iddo ddisgyn ar Iesu yn ei fedydd
i'w arfogi ar gyfer ei weinidogaeth
ac i'n harwain ninnau i'w adnabod a'i ddilyn.
Diolchwn am iddo ymdywallt ar dy ddisgyblion
ar y Pentecost cyntaf i'w gwisgo â grym i dystio i ti
ac i adnewyddu a bywhau dy Eglwys heddiw yn ei gwaith.
Diolchwn am ei oleuni a'i arweiniad yn hanes y
ddynoliaeth; yn natblygiad gwareiddiad,
yn narganfyddiadau'r gwyddonydd,
yng ngweledigaeth y bardd a dawn yr artist.
Diolchwn am ei bresenoldeb a'i nerth yn ein bywydau ninnau, yn ein harwain i adnabod a chredu yn Iesu,
yn ein cynnal yn ein hargyfyngau
ac yn ein hysbrydoli i ymroi i waith dy deyrnas.
Arglwydd, agor ein calonnau a'n meddyliau
i'w anadliadau bywiol ac i'w egnïoedd a'i ddoniau.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd nerth ac adfywiad:**
ymwêl â'th Eglwys
i'w deffro o'i chysgadrwydd
a'i gwneud yn dyst ffyddlon ac effeithiol i'r Efengyl.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd tangnefedd:**
arwain bobl ym mhobman i heddwch a chytgord;
gwared nhw o bob gormes a chreulondeb
ac arwain genhedloedd y ddaear i undod teulu Duw.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd diddanwch a chysur:**
bydd yn nerth i'r gwan a'r tlawd;
bydd yn gwmni i'r unig a'r rhai sydd mewn tristwch;
bydd yn arweinydd i'r rhai sydd ar goll mewn anobaith.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd gallu a gwirionedd:**
gorchfyga ein hofnau a gwna ni'n wrol ynot ti;
rhyddha ni o'n difaterwch a'n syrthni
ac ennyn fflam ar allor ein heneidiau.
**Ysbryd Sanctaidd – Ysbryd Crist:**
tyn ni i bresenoldeb ein Harglwydd Iesu;
mwyda'n calonnau caled yn llifeiriant ei gariad;
ysguba ymaith ein pechodau â'i faddeuant
a llanw ni â nerth a llawenydd ei fywyd.
Yr wyt ti fel gwynt yn chwythu lle y mynni,
yn dod atom ar hyd llwybrau anhysbys ac annisgwyl,
yn cyffwrdd â ni yn holl brofiadau ein bywyd;
tyrd atom ni yn awr, ac aros gyda ni dros byth. Amen.

*Elfed ap Nefydd Roberts (o* Cymer fy Munudau*)*

# 20 mlynedd o wasanaeth fel Rheolwyr Canolfan Coleg y Bala

## Siân ac Owain Edwards


**‘Clod iddo! Mae’n gwneud llawer iawn mwy na dim y bydden ni’n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu!’ (Effesiaid 3:20)**

Roedd yr adnodau hyn yn ein hannog a’n hysbrydoli wrth i ni gyrraedd y Coleg bron i 20 mlynedd yn ôl, ac mae Duw wedi gwneud llawer iawn mwy na dim yr ydym ni’n mentro gofyn amdano na hyd yn oed yn gallu ei ddychmygu. Wrth inni ysgrifennu ein hadroddiad olaf mae ein calonnau mor llawn o ddiolchgarwch a mawl am Ei ddaioni a’i ffyddlondeb dros y blynyddoedd.

Hoffem fynegi ein diolch diffuant i’r ymddiriedolwyr a staff Coleg y Bala am y fraint o wasanaethu fel Rheolwyr y Ganolfan dros y ddau ddegawd diwethaf. Rydym yn hynod ddiolchgar am y cyfle a roddwyd i ni i gymryd y rôl hon, i arwain gwaith y Coleg, a chael chwarae rhan yn siapio cenhedlaeth o bobl ifanc yn eu ffydd yn Iesu Grist. Bu’n fraint fawr cerdded ochr yn ochr â sawl un wrth iddynt dyfu yn eu dealltwriaeth o Iesu ac yn eu hymrwymiad i’w ddilyn. Rydym hefyd yn tu hwnt i ddiolchgar i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am eu cefnogaeth hael a ffyddlon i waith gweinidogaeth y Coleg dros y blynyddoedd.

Er bod y rôl hon wedi bod yn fendith enfawr, fe ddaeth hefyd â’i heriau. Yn gynnar yn ein cyfnod yn y Coleg fe wynebwyd y profiad torcalonnus o golli ein gweithiwr ieuenctid, Siôn Ifan, ac effeithiodd ei farwolaeth yn ddwfn arnom ni i gyd. Roedd yn gyfnod hynod anodd lle bu’n rhaid i ni ddibynnu’n llwyr ar Iesu. Cafwyd adegau pan gafodd ein ffydd ei phrofi a’i chwestiynu, ond drwy’r cyfan profwyd ffyddlondeb Crist mewn ffyrdd dwfn a real. Mae etifeddiaeth Siôn yn parhau yng Ngholeg y Bala. Daeth sawl un o’r bobl ifanc ar y cwrs hwnnw i adnabod Iesu’n bersonol, ac mae rhai ohonynt bellach yn gwirfoddoli yma. Mae ei fywyd a’i dystiolaeth yn dal i ddwyn ffrwyth.

Un o uchafbwyntiau mawr yr 20 mlynedd diwethaf yw’r cynllun blwyddyn gap. Bu’n fraint enfawr byw, gweithio a rhannu bywyd gyda’r bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen hon. Fel rheolwyr ac fel teulu rydym wedi cael ein cyfoethogi gan y perthnasoedd hyn. Mae’n hyfryd gweld cymaint o gyn-fyfyrwyr bellach yn arwain mentrau newydd,






yn gwasanaethu mewn rolau arloesol, ac yn cyfrannu’n ffyddlon i’w heglwysi lleol. Rydym yn ddiolchgar i’r enwad am ei haelioni wrth ariannu’r rhaglen hon, ac rydym yn credu y bydd ffrwyth y buddsoddiad hwn yn parhau i’w weld yn y blynyddoedd i ddod. Mae llawer cyfeillgarwch oes wedi’i ffurfio, ac mae dylanwad y cynllun yn ymestyn ymhell y tu hwnt i furiau’r Coleg.



Mae gweithio yn y Coleg bob amser wedi teimlo fel bod yn rhan o deulu. Rydym yn ddiolchgar am ymroddiad pob aelod o staff, pob un ohonynt wedi rhoi ei holl egni i’r gwaith yma. Rydym yn arbennig o ddiolchgar am aelodau staff iau sydd wedi dod â chreadigrwydd a gweledigaeth ffres i rannu’r efengyl mewn ffyrdd perthnasol a deniadol. Ar yr un pryd, mae doethineb a phrofiad y staff a fu’n gwasanaethu am amser hir wedi bod yn amhrisiadwy, a gyda’n gilydd mae’r talentau hyn wedi helpu i lunio’r cyrsiau gorau posibl i’r rhai sy’n mynychu. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i’r rhai sy’n gweithio’n ffyddlon y tu ôl i’r llenni i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel, yn groesawgar, ac yn cael gofal da, a bod bwyd da ar gael bob amser. Mae’r cyfraniadau ymarferol hyn yn hanfodol i greu’r amgylchedd cynnes a chefnogol y mae’r Coleg yn enwog amdano.

Rydym yn ddiolchgar am y cyfleon a’r amser y mae’r Coleg wedi eu rhoi i ni i weddïo dros a disgyblu’r rhai

sy'n mynychu. Dros y blynyddoedd bu sawl achlysur pan brofwyd presenoldeb a ffafr yr Arglwydd yn y lle hwn mewn ffordd mor real, ac fe fyddwn bob amser mor ddiolchgar am Ei ffyddlondeb at y gwaith yma.

Fel teulu buom yn byw yn y Coleg am ddeunaw mlynedd, ac mae hyn wedi bod yn fendith sylweddol. Mae ein plant wedi tyfu i fyny yng nghwmni pobl sy'n caru'r Arglwydd, pobl sydd wedi buddsoddi ynddynt, eu hannog, a'u cefnogi i gamu i mewn i bopeth sydd gan Iesu iddynt. Fel rhieni, mae'n anodd dod o hyd i eiriau digonol i fynegi ein diolchgarwch am hyn.

Yn olaf, hoffem ddiolch eto i'r ymddiriedolwyr a'r staff am eu cefnogaeth, eu hanogaeth a'u cyfeillgarwch dros yr ugain mlynedd diwethaf. Bu'n fraint aruthrol gwasanaethu yng Ngholeg y Bala, ac rydym yn parhau'n wir ddiolchgar am y cyfle a gafwyd. Bydd y Coleg bob amser yn aros yn lle arbennig iawn yn ein calonnau, a gweddïwn y bydd Duw yn parhau i fendithio ac arwain ei waith am flynyddoedd lawer i ddod.

**'Chi ydy'r golau sydd yn y byd. Mae'n amhosib cuddio dinas sydd wedi'i hadeiladu ar ben bryn.'**
**(Mathew 5:14)**


Mae'r Coleg, yn llythrennol, wedi ei adeiladu ar ben bryn, ac wrth i'n hamser ni ddod i ben, ein gweddi yw y bydd goleuni Iesu sydd yn trawsffurfio ac yn adfywio bywydau yn dal i ddisgleirio o'r fan hon. Gweddïwn y bydd gweinidogaeth y Coleg, drwy nerth yr Ysbryd Glân, yn parhau i gael dylanwad ar fywydau plant a phobl ifanc am flynyddoedd lawer i ddod.

*O adroddiad olaf Siân ac Owain i ymddiriedolwyr Coleg y Bala.*

## Diolch, Siân ac Owain

**Cynhelir gwasanaeth o ddiolchgarwch am ugain mlynedd o weinidogaeth a gwasanaeth ffyddlon gan Siân ac Owain Edwards yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala ar 30 Mai yn Eglwys Crist, y Bala.**

**Rhagor o fanylion ar gael gan Angharad Clwyd, Coleg y Bala.**
**01678520565**
**Angharad.clwyd@ebcpcw.cym**








# Ar ras i'r India – Huw a Nan Powell-Davies

## Eglwys Bresbyteraidd India yn dathlu canrif o fodolaeth

Bnawn Mawrth olaf Ebrill roeddwn i'n rhedeg ar draws Pont Waterloo yn Llundain gyda fisa newydd ei phastio yn fy mhasbort yn barod i fynd i'r India. Roedd brys gan fod yn rhaid cychwyn yn syth am Heathrow er mwyn dal yr awyren i Delhi oedd yn hedfan y noson honno. Doedd dim amser i'w sbario o gwbl. Roedd Nan a minnau'n awyddus i fynd ymlaen oddi yno i Ogledd-ddwyrain India oherwydd eu bod yn dathlu can mlynedd ers sefydlu Eglwys Bresbyteraidd India fel uned o dan un Cymanfa Gyffredinol. Roedden ni wedi cael cyrraedd Shillong ac yn barod i'n gwelyau erbyn 11 o'r gloch ar y nos Fercher.

Wrth gael bod yno, cawsom gyfle i ddal i fyny â chydnabod a ffrindiau, ymweld ag Ysbyty Gordon Roberts a gweld yr estyniad newydd yn mynd rhagddo a'r gwaith yn mynd o nerth i nerth, yn ogystal â thrafod cynlluniau gyda Choleg Diwinyddol John Roberts.

Fe gawsom hefyd ymuno efo nhw yn eu dathliadau a gweld 2,000 o gynrychiolwyr yn cael eu croesawu a'u lletya o 12 synod yr eglwys, yn cynrychioli 1.6 miliwn o Gristnogion ledled taleithiau'r Gogledd-ddwyrain. Ymunodd llawer rhagor erbyn y Sadwrn a'r Sul, gan lenwi maes chwaraeon eang yn ninas Shillong ym Meghalaya, neu Fryniau Casia fel y byddai'n fwy cyfarwydd i ni.

Cawsom ein rhyfeddu gan yr amrywiaeth o bobl oedd wedi dod ynghyd, yn cynrychioli'r eglwysi o gymaint o amrywiol lwythau'r Gogledd-ddwyrain. Mae'r saith talaith yno yn gartref i dros 200 o gymunedau llwythol gwahanol, gyda llwythau'r Naga, y Mizo, y Kuki, y Garo, y Bodo, y Khasi a'r Apatani ymhlith y rhai mwyaf niferus – pob llwyth â'i iaith, ei arferion a'i ddiwylliant unigryw ei hun. Yn ychwanegol at y 200 llwyth, mae sôn wedyn am 300 o is-lwythau, sy'n gwneud yr ardal ymhlith y mwyaf amrywiol yn ddiwylliannol yn Asia.



*Torf y dathlu ar y Sul yn Shillong*



*Cor cyfansawdd y Synodau fu'n canu cân y dathlu -*
*'I Dduw bo'r Gogoniant', a chorws yr Halelwia gan Handel*

Dyma'r taleithiau a dyma'r llwythau yr oedd cenhadon o'n plith ninnau yng Nghymru wedi ceisio rhannu'r newyddion da am Iesu Grist efo nhw ers i Thomas Jones, Berriw, a'i wraig, Anne, gyrraedd Bryniau Casia ym mis Mehefin 1841, 185 mlynedd yn ôl. Nid mewn deuddydd y cyrhaeddon nhw, ond bum mis ers cychwyn o Lerpwl y flwyddyn cynt, ac aros yn Kholkata am dywydd ffafriol i deithio mlaen. Bu'r genhadaeth yn un fregus, yn llawn siom ar brydiau, fel pan gollwyd Daniel Jones o Lyn y Pandy ar ôl chwe mis yn unig yno a chladdu ei ferch fach yn yr un arch ag ef.

Cawsom ein hatgoffa o aberth a gweledigaeth fawr llawer o'r cenhadon o Gymru a rhai brodorol, ac o'r ymdrech a'r dyfalbarhad sy'n dal i'w nodweddu. Diben mawr y dathlu oedd rhoi diolch bod y bwriad cychwynnol o weld eglwys fyw i'r Arglwydd Iesu Grist dan arweiniad y llwythau eu hunain wedi'i wireddu. Nid oedd angen i ni ddweud dim; dim ond rhoi diolch i Dduw am ei waith ymhlith y llwythau hyn a rhyfeddu at y wyrth ag ydyw Eglwys Bresbyteraidd India yn ei hundod a'i thystiolaeth i'r Arglwydd. Roeddem mor falch ein bod yn cael bod yno o Gymru yn dystion i'r dathlu a'r berthynas sydd yn parhau rhyngom.

Roedd hi'n emosiynol gweld cymaint wedi teithio o dalaith Manipur a'r tair synod sydd eto'n rhan o Eglwys Bresbyteraidd India yno, y corau a'r

cynrychiolwyr oedd wedi gwneud y fath ymdrech er gwaethaf pob gwrthdaro llwythol ac nad oedd hi'n ddiogel iddyn nhw deithio drwy ddyffryn Imphal. Roedd ein calonnau ar dân wrth eu gweld a'u cyfarch, a chlywed eu hanes a hanes eu heglwysi'n parhau i dystio a dwyn ffrwyth dan erledigaeth. Fe gawsom ni drafod efo nhw a rhannu am ein hapêl ariannol a'n hymgyrch weddi i'w cefnogi.

Erbyn pnawn Mawrth, 6 Mai, roeddem ni yn ein holau ar dir Cymru – gwibdaith gyffrous yn wir. Ond cofiem am eraill o'r taleithiau a fyddai'n cymryd yn hirach na ni i gyrraedd adref ac yn wynebu amgylchiadau gwahanol iawn ar ôl cyrraedd. Roeddem yn diolch ac yn rhyfeddu eu bod hwy wedi'u clymu'n un mewn tangnefedd yn yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi (Effesiaid 4:3) a ninnau'n cael y fraint hefyd gyda nhw o fod yn rhan o'r corff hwnnw sy'n tystio i oleuni gras a grym cariad Iesu Grist drwy'r byd.



*Cyflwyno anrheg i H.L. Myrsing, llywydd presennol Cymanfa Gyffredinol EBI*




*Gosod torch ar fedd y diweddar Robert Cunville, fu lawer gwaith yng Nghymru ac ar ymgyrchoedd efengylu yn ei gyswllt â mudiad Billy Graham*



*Gyda Phrif Weinidog talaith Meghalya, Conrad Sangma a Jooseup Keum a'i wraig Ha Young Do o Korea ar ran CWM*



*Gyda cherddorion ifanc fu yng Nghymru ar daith yn ddiweddar*

## Lladd tri gweinidog Bedyddedig yn Manipur, India

Ddydd Mercher cyn y Dyrchafael (13 Mai), daeth y newydd enbyd fod dau gerbyd o gynrychiolwyr i gynhadledd a drefnwyd gan Eglwys Bedyddwyr y Dalaith yn Churachandpur yn Ne Manipur wedi eu hel oddi ar yr unig ffordd sy'n cysylltu de a gogledd y dalaith.


Mewn datganiad gan Gyngor Cenedlaethol Eglwysi Bedyddiedig India, sy'n clymu dros bum miliwn o gredinwyr Bedyddiedig at ei gilydd ar draws y wlad, fe rannwyd am y modd y lladdwyd tri o'u gweinidogion, ac y cafodd eraill eu hanafu yn ddifrifol a rhai eu dal yn wystlon.

Condemniwyd yr ymosodiad creulon mewn nifer o ddatganiadau ar ran y Bedyddwyr, yr eglwysi a'r cynghorau eglwysig eraill yn India, gan gydymdeimlo â theuluoedd ac eglwysi'r gweinidogion fu farw. Galwyd ar yr awdurdodau sy'n llywodraethu yno i sicrhau bod y rhai oedd yn gyfrifol yn cael eu dwyn i gyfrif. Wrth i dalaith Manipur barhau i ddod dros y gwrthdaro eang a ddechreuodd yno dair blynedd yn ôl, anogwyd pob cymuned a llwyth o bobl i wrthod rhaniadau ethnig a rhaniadau eraill, i ymatal rhag cynyddu'r trais, a pharhau yn y gwaith caled ond cysegredig o garu, cymodi, a gofalu'n adferol, yn arbennig am y bregus a'r rhai sy'n dioddef.

Rhannwn ninnau fel eglwysi yng Nghymru yn eu galar a'u dyhead am gymod a heddwch cyfiawn. Gweddïwn drostynt y bydd yr Arglwydd ei hun yn eu cysuro a'u harwain yn y dyffryn tywyll hwn at ei oleuni rhyfeddol ef.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 23

## Ymgom Esther

Fe gofiaf arogl olewydd a phersawr y palas yn nofio ar yr awel rhwng y llenni sidan. Sibrydwyd f'enw'n ofalus gan y gweision wrth imi gyrraedd. Teimlais fod rhywbeth ar droed.

Fedrwn i ddim credu bod merch amddifad fel fi wedi'i dewis. Hadassa oedd fy enw cyn imi gael fy ailenwi'n Esther. Cefais fy siapio gan golled ymhell cyn imi etifeddu gwisg frenhinol. Bu farw fy rhieni a minnau'n ifanc; dysgais sut y mae galar yn tawelu rhywun. Efallai'n wir mai dyna sut y medrais ymdopi â'r palas. Yno byddai merch sy'n gwybod pryd i siarad yn cael ei pharchu, a rhywun sy'n gwybod pryd i aros yn dawel yn blodeuo.

Do'n i ddim eisiau mynd at y brenin. Un oeddwn ymysg llawer. Cawsom ein casglu fel blodau o'r gerddi, wedi ein neilltuo ar gyfer ein barnu gan y brenin. Roedd yr ofn yn llygaid rhai o'r merched yn glir: gweddïodd ambell un, wylodd eraill, breuddwydiodd rhai am gael eu dewis. I mi, cadw'n fyw oedd y nod.

Rywsut derbyniais ffafr y brenin. Bu'r paratoi'n hir: chwe mis o gael triniaethau croen a phuro, a chwe mis arall o gael fy mhersawru a'm coluro. Yna, yn sydyn, roedd y goron am fy mhen a phawb yn ymgrymu imi. Ond ni all unrhyw goron ddiddymu unigrwydd. Roedd pob gwên o fewn y muriau crand yn cuddio bygythiad, a phob clod yn cario cynllwyn. Dechreuais deimlo'n ansicr yn fy harddwch, er i'r brenin fy ngharu.

Drwy'r cyfan, roedd Duw'n symud, fel y mae bob amser, yn y cefndir a than yr wyneb. Ni ddaeth mellt na tharan, agorodd y môr mo'i eigion; doedd dim colofn o dân na pherth yn llosgi. Ond roedd dewisiadau i'w gwneud. Dewrder. Amseru. Dwylo tyner yn cymell pobl benodol.

Yna, daeth y frawddeg a'm hysgydwodd. Gwas ynganodd y geiriau: "Paid â meddwl y cei di dy achub oherwydd dy fod yn byw yn y palas." Gwyddwn mai Mordecai oedd piau'r neges mewn gwirionedd. Fe oedd yr un oedd yn fy nghysgodi, heddiw fel erioed. Roedd yn rhaid imi fynd i stafell y brenin. Ond doedd neb i fod i wneud hynny heb wahoddiad, neb! Pe byddai'r brenin yn cynnig ei deyrnwialen aur imi, yna byddwn yn saff. Ond fe allwn gael fy lladd. Brenhines neu beidio.

Yna daeth y frawddeg nesaf. "Falle mai dyma'n union pam wyt ti wedi dod yn rhan o'r teulu brenhinol ar yr adeg yma!" Ar yr adeg yma. Nid i dderbyn trysorau, gemwaith a chlod, ond i ddal ar y foment hon pan fo fy mhobl yn byw dan warchae ofn.

Dyna pryd y penderfynais ymprydio. Gall newyn atgoffa'r enaid o'r angen am gryfder mewnol. Am dri diwrnod bûm yn gwacáu fy hun, yn gwaredu'r sicrwydd hyd nes bod dim ar ôl ond ufudd-dod.

Wrth gerdded i mewn i'r llys, crynai fy nghoesau o dan fy ngwisg hardd. Rhifais bob anadl, clywais y distawrwydd. Yna, cododd y brenin ei deyrnwialen tuag ataf. Fe allwn fod wedi dathlu'r goncwest honno yn y fan a'r lle, ond roedd mwy i'w gyflawni. Gofynnais i'r brenin am wledd, a chytunodd. Es ati i baratoi.

Wrth y bwrdd, gwyliais Haman – yr un drwg – yn ymffrostio. Gwn mai byr fyddai ei hoedl. Wrth imi rannu am dynged fy mhobl, teimlais yr awyrgylch yn newid. Clywais gamau cyfiawnder nefol yn atseinio drwy'r lle. Chafodd enw fy Nuw mo'i ddweud ar goedd, ond roedd E'n bresennol. 'Dyw tawelwch ddim bob amser yn dynodi absenoldeb.

Merch amddifad oeddwn i mewn lle estron. Brenhines yn llechu'n ddewr tu ôl i furiau palas. Merch yn crynu o flaen y brenin. Ces fy newis gan Dduw ac roedd hynny'n fwy grymus na'r holl harddwch yn y byd i gyd!

**Holi**

- Gall siarad dros y gwir beryglu ein cyfforddusrwydd, ein perthnasau, ein diogelwch. Sut mae stori Esther yn herio ein meddwl, ein sefyllfaoedd, ein bywydau?

- Atgoffwyd Esther am y posibilrwydd fod gan ffawd ran i'w chwarae yn ei stori. Beth yw eich barn am ffawd?

- Nid oes sôn am Dduw yn stori Esther. Oes gennych brofiad o deimlo Duw yn gweithio tu ôl i'r llen, yn dawel?

- Paratôdd Esther ei hun drwy ympryd, gweddi, a myfyrio. Allwn ni ddysgu o'i hesiampl? Pa fathau o ddisgyblaeth ydych chi'n eu harddel fel unigolion ac fel eglwys?

- Ydyn ni'n ddigon doeth a dewr fel Cristnogion heddiw?

**Gweddi**

Diolch dy fod, O Dduw,
bob amser ar waith o'n mewn.
Rho inni'r ffydd i ymddiried ynot Ti.
Cryfha ni i fyw'n eofn,
i garu'n llwyr,
ac i fod yn barod ar yr adeg iawn.
Amen.

*Sian Meinir*

BBC radio cymru S4C

**Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 24 Mai 2026**

**Radio Cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Mai, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Noa Evans, Caerdydd

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Mai am 12:00yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 24 Mai, am 9.00yh – Maethu**
Lisa fydd yn nodi Pythefnos Maethu 2026 ac yn tynnu sylw at y gwaith hanfodol sy'n cael eu wneud gan ofalwyr. Bydd hi yn y Bala yn treulio amser yng nghwmni teulu arbennig sy'n agor eu cartref ac yn rhoi ffydd ar waith, drwy roi gobaith i blant a phobl ifanc mewn cyfnodau ansicr.

# Dagrau Aur – agor y drws ar ddioddefaint merched o Nigeria





Dim ond deng mlwydd oed oedd Florence pan ymosodwyd arni gan Fulani milwriaethus. ‘Roeddwn i’n cysgu adref gyda fy nain pan ddaethon nhw a fy nhreisio i,’ meddai, mewn cyflwyniad i’w hunanbortread oedd i’w weld mewn arddangosfa arbennig yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon, yn ystod 14–16 Mai. ‘Ar ôl hynny, roeddwn yn crio o hyd, a doedd dim byd yn fy ngwneud i’n hapus.’

Cafodd Florence gyfle i rannu ei stori a cheisio dod i delerau â’i phrofiad erchyll wrth ymuno â rhaglen o weithdai gofal yn dilyn trawma ar gyfer merched ifanc a menywod Cristnogol yn Nigeria. ‘Wrth i mi beintio, roeddwn yn meddwl am yr hyn oedd wedi digwydd i mi,’ ychwanegodd, ‘ond ar ôl y ddau diwrnod cyntaf, dechreuais deimlo’n hapus, fel petai pethau’n dechrau cilio’n raddol.’

Hwyluswyd y gweithdai hyn gan Open Doors, elusen sy’n cefnogi Cristnogion sy’n wynebu erledigaeth ledled y byd. Roedd yr arlunwraig Hannah Rose Thomas yn rhan o’r rhaglen, a bu’n helpu’r merched i beintio hunanbortread fel ffordd o ddatgan eu hunaniaeth a’u gwerth. Yna, aeth ati i gynhyrchu delweddau dwys o’r merched gan gyfleu eu harddwch a’u gwydnwch mewn modd sensitif a phwerus.

‘Dw i wedi dangos fy wyneb â dagrau yn fy llygaid oherwydd fy mod yn cofio’r holl broblemau a gefais.’ Dyna eiriau Charity, un arall o’r merched yr oedd ei phortread i’w weld yn yr arddangosfa.

Cafodd Charity ei herwgipio gan Boko Haram. Er ei bod hi eisoes yn briod, cafodd ei gorfodi i briodi rhywun arall. Beichiogodd a geni merch fach. Ymhen amser cafodd ei rhyddhau gan filwyr Nigeria, ond ar ôl iddi ddod adref, dechreuodd ei gŵr cyfreithlon ei churo, a gwrthod derbyn y plentyn. ‘Mae’r rhaglen cwnsela trawma wedi bod yn gymorth ac yn anogaeth fawr i mi,’ ychwanegodd. ‘Dw i eisiau diolch i Dduw. ... mae fy ngŵr wedi newid. Mae o wedi dechrau hoffi fy merch.’

Yn ôl Ruth Martin, gwirfoddolwraig gyda’r elusen Open Doors, ‘Neges sylfaenol y merched yma ydi fod Duw yn gallu rhoi gobaith iddyn nhw, er iddyn nhw ddioddef camdriniaeth erchyll, a throi eu dagrau’n ddagrau aur. Ac maen nhw’n siarad efo ni yma yng Nghymru’r dyddiau hyn.’

Felly, mae yna wahoddiad i bawb sy’n mynd i weld yr arddangosfa ddirdynnol hon ymateb iddi drwy greadigrwydd a gweddi.

Ewch i’w gweld os cewch gyfle – mae neges y merched dewr hyn yn haeddu ei chlywed a’i rhannu, ac efallai y byddan nhw’n ysgogi eraill i rannu eu storïau personol nhw eu hunain.

**Bydd yr arddangosfa’n teithio i rai mannau eraill, ac i’w gweld yng Nghapel Bethesda, yr Wyddgrug, 26–30 Mai, gan ddechrau gyda noson o grefft a gwerthfawrogiad nos Fawrth, 26 Mai. Rhagor o fanylion gan Catrin Hampton: Catrin.Hampton@ebcpcw.cymru**

*Marian Beech Hughes*




**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru

Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)

Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.



*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*


Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.